| Amcanion Ymgynghorwyr 2025 |
| --- |
| 1. I gynghori ar strategaeth fuddsoddi addas, a newidiadau i'r strategaeth, i gyflawni'r enillion buddsoddi gofynnol o fuddsoddiadau'r Gronfa a cefnogi cynnydd tuag at lefel cyllido sefydlog yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys cyngor yn dilyn y prisiad teirblynyddol fel yn briodol. |
| 2. I gyflawni dull buddsoddi sy'n adlewyrchu sefyllfa llif arian y Gronfa, ac esblygiad tebygol, a lleihau'r risg o ddadfuddsoddi gorfodol. |
| 3. I gynghori ar weithredu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn gost effeithiol fel bo'r angen, gan ystyried datblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru a diwygio gofynion pŵlio CPLlL. |
| 4. I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau a deddfwriaeth pensiwn perthnasol a chanllawiau arweiniol. |
| 5. I ddatblygu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys rhai yn ymwneud a Buddsoddi Cyfrifol. |
| 6. I sicrhau bod y cyngor yn adlewyrchu polisïau a chredoau'r Pwyllgor, yn cynnwys y rhai mewn perthynas ag ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol. |
| 7. I ddarparu cyngor perthnasol ac amserol. Bydd y gwasanaethau'n gymesur ac yn gystadleuol o ran costau o'u cymharu â cyfoedion. Dylai gwasanaethau gadw at gyllidebau y cytunwyd arnynt a bod yn dryloyw, gan restru gwaith ychwanegol gyda ffioedd ymlaen llaw. |
| 8. I gynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion buddsoddi. |
| 9. Datblygu dealltwriaeth y Pwyllgor am risg hinsawdd a ESG a fydd yn arwain at sefydlu dyddiad targed sero net a chynllun gweithredu pontio hinsawdd sy'n nodi'r camau y bydd y Pwyllgor yn eu cymryd i leihau allyriadau carbon. |
| 10. Bydd yr ymgynghorydd buddsoddi yn cydweithio gydag actiwari, rheolwyr asedau, a 'custodian' y Gronfa, yn ogystal â thrydydd partïon eraill gan gynnwys gweithredwr ac ymgynghorwyr y pŵl. |
| 11. Datblygu gwybodaeth y Pwyllgor o ymgynghoriad y llywodraeth ar ddyfodol y CPLlL a sut y bydd hyn yn effeithio ar weithrediad y Gronfa. |